Hawdd ei Ddeall

# Cymerwch ran yn ein Prosiect Gwybodaeth am Frechu

## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am frechlynnau a'n helpu ni i greu gwybodaeth sy'n helpu eraill i wneud dewisiadau gwybodus.



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Anabledd Dysgu Cymru.**

**Chwefror 2023**

# Cyflwyniad

Ni ydy **Anabledd Dysgu Cymru**.



Fe wnaeth **Iechyd Cyhoeddus Cymru** ofyn inni ddarganfod beth mae pobl ag anabledd dysgu yn ei feddwl am **frechu** a chael **brechlynnau.**







**Brechu** ydy'r ffordd rydyn ni yn rhoi brechlyn i rywun i'w  gwarchod nhw rhag clefydau penodol.

Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n helpu eich corff i ymladd afiechydon i'ch cadw'n ddiogel rhag mynd yn sâl iawn.



Yn y DU mae gennym ni raglen o **frechlynnau** sydd am ddim o'r GIG.



Maen nhw'n cael eu rhoi ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ac ar wahanol oedrannau er mwyn helpu i roi'r amddiffyniad gorau i bobl.

**Er enghraifft:**



- Mae rhaglen **frechu** i blant sy'n dechrau yn 2 fis oed. Mae babis yn cael **brechlynnau** i'w hamddiffyn rhag pethau fel llid yr ymennydd a'r frech goch.



- Yn 12 i 13 oed, mae pobl ifanc yn gallu cael y **brechlyn** **HPV**. Mae **HPV** yn feirws cyffredin iawn sy'n gallu achosi problemau, a chanser mewn rhai achosion.



- Mae plant ac oedolion sydd mewn perygl o fynd yn sâl iawn os ydyn nhw'n cael ffliw, yn gallu cael **brechlyn** ffliw bob blwyddyn. Fel arfer, mae hyn yn yr hydref neu'r gaeaf.




- Mae pobl wedi bod yn cael y **brechlyn** COVID-19 er mwyn helpu i ddiogelu pobl rhag coronafeirws.

# Nod y prosiect yma

**Rydyn ni eisiau darganfod:**




- Beth mae pobl yn ei wybod a'i feddwl am **frechlynnau**.



- Os ydy pobl yn poeni am gael **eu brechu** neu gael **brechlynnau** ac os felly, beth sy'n gwneud iddyn nhw boeni.



- Beth sy'n helpu pobl i gael eu **brechlynnau**.




- Pa wybodaeth sydd ar gael i bobl am **frechlynnau**. A lle mae pobl yn cael eu gwybodaeth.



- Sut y byddai'n well gan bobl gael gwybodaeth am **frechlynnau**.



Ar ddiwedd y prosiect yma, fe fyddwn ni yn defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu i wneud gwybodaeth am **frechlynnau** sy'n fwy hawdd ei darganfod a'i deall.



Nod yr wybodaeth fydd helpu pobl sydd ag anabledd dysgu i wneud penderfyniadau gwybodus am gael **brechlynnau**.

# Sut gallwch chi gymryd rhan

**Os ydych chi'n berson gydag anabledd dysgu, mae yna 3 ffordd wahanol y gallwch gymryd rhan.**




1. Gallwch ateb ein harolwg ar-lein, sydd ar gael rhwng **dydd Llun 20 Chwefror 2023 a dydd Gwener 10 Mawrth 2023** yma: https://forms.gle/JKKw4JqBZ8wFfDfv7



2. Gallwch gymryd rhan mewn **grŵp ffocws** wyneb yn wyneb yn  eich grŵp Pobl yn Gyntaf. Dim ond gyda 3 o bobl grwpiau cyntaf yr ydyn ni yn gwneud hyn. Fe fyddwch chi yn derbyn £20 am gymryd rhan.

   Grŵp o bobl sy'n cyfarfod i siarad am eu barn a'u profiadau ydy **grŵp ffocws**. Maen nhw'n rhoi adborth ar rywbeth. Ar gyfer y prosiect yma rydyn ni yn gofyn am adborth ar gael **brechlynnau**.




3. If you are not a member of 1 of the people first groups we are working with, you can take part in an online **focus group**. You will be paid £10 for taking part.




Fe fydd y **grwpiau ffocws** ar-lein  yn para tua 1 awr.



Rydyn ni yn chwilio am bobl sydd yn 18 oed a throsodd.




Rydych chi'n  gallu cymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Os ydych chi eisiau cymryd rhan mewn 1 o'r **grwpiau ffocws** ar-lein yma:




**Cliciwch yma a llenwi'r ffurflen ar-lein: [https://forms.gle/9zwMWDfvjVdVecMs8](https://forms.gle/9zwMWDfvjVdVecMs8)**

**Neu cysylltwch gyda:**



**Laura Griffiths, Anabledd Dysgu Cymru**

**Ebost:** [Laura.griffiths@ldw.org.uk](mailto:Laura.griffiths@ldw.org.uk)

**Ffôn:** 029 2068 1176

Rydyn ni hefyd yn chwilio am:



- teulu a gofalwyr pobl ag anabledd dysgu
- a phobl sy'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu



a fyddai yn fodlon dweud beth maen nhw’n feddwl a beth mae’r bobl maen nhw’n gofalu amdanyn nhw yn ei feddwl drwy gyfweliad 1 i 1.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweliad:




**Llanwch y ffurflen ar-lein yma: https://forms.gle/9zwMWDfvjVdVecMs8**



**Neu cysylltwch gyda:**

**Laura Griffiths, Learning Disability Wales**

**Ebost:** Laura.griffiths@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 2068 1176

# Grwpiau Ffocws

Os ydych chi eisiau cymryd rhan mewn **grŵp ffocws** ar-lein, mae angen i chi fod ar gael ar y dyddiadau yma:




- Oedolion sydd am rannu eu barn yn **Saesneg** - **Dydd Iau 2 Mawrth 2023 am 2pm**.




- Oedolion sydd am rannu eu barn yn **Gymraeg** - **dydd Llun 3 Mawrth 2023 am 2pm**.



Fe fyddwch angen cyfrifiadur, gliniadur, ffôn deallus, neu dabled i ymuno gyda'r grŵp



Fe fyddwn ni yn anfon gwahoddiad i'r cyfarfod i chi drwy e-bost. Fe fydd angen i chi glicio ar y ddolen yn yr e-bost i ymuno gyda'r **grŵp ffocws**.




Fe fyddwn ni yn talu £10 i chi am gymryd rhan mewn **grŵp ffocws** ar-lein.




Fe fyddwn ni yn talu £20 i chi am gymryd rhan mewn **grŵp ffocws** wyneb yn wyneb.



Siaradwch â ni os oes angen unrhyw help arnoch sy'n cymryd rhan neu os ydych chi'n poeni am unrhyw beth.

# Diogelu



Fe fydd y **grwpiau ffocws** yn cael eu harwain gan aelod o staff o Anabledd Dysgu Cymru.




Fe fydd staff eraill Anabledd Dysgu Cymru yno a fydd yn helpu i gynnal y sesiwn.



Fe fyddwn ni yn gofyn rhai cwestiynau i helpu i ddechrau'r sgwrs. Ac i feddwl a siarad am wahanol bethau.



Rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi'n feddwl.



Fe fyddwn ni yn gwrando ar ein gilydd ac yn trin ein gilydd gyda pharch.




Efallai bod pobl yn meddwl pethau gwahanol a bod ganddyn nhw farn wahanol.



Fyddwn ni ddim yn barnu ein gilydd os oes gennym farn wahanol neu'n anghytuno gyda'n gilydd.



Fe fyddwn ni yn anfon rhai dolenni atoch am wybodaeth hawdd ei ddeall am **frechlynnau** os ydych eisiau gwybod rhagor.



Rydyn ni eisiau i chi deimlo'n gyfforddus ac yn hapus i ddweud beth rydych chi'n feddwl. Siaradwch gyda ni os oes angen unrhyw help arnoch chi gydag unrhyw beth.

# A fydd beth rydych chi’n ei ddweud yn cael ei gadw'n breifat



Fe fyddwn ni yn recordio beth sydd yn cael ei ddweud. Ac fe fyddwn ni yn defnyddio beth sydd yn cael ei ddweud i ysgrifennu adroddiad.




Fe fydd yr aelod staff o Anabledd Dysgu Cymru sydd wedi arwain y sesiwn yn gwrando ar y recordiad. Fe fyddan nhw'n ysgrifennu crynodeb beth sydd wedi cael ei ddweud.  Mae hyn yn cael ei alw yn **drawsgrifiad**. Ar ôl hyn, bydd y recordiadau'n cael eu dileu.




**Ni fydd eich enw'n cael ei roi yn y trawsgrifiad. Ni fydd yn amlwg pwy sydd wedi dweud beth.**



Fe fydd staff o Anabledd Dysgu Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a grŵp llywio'r prosiect yn gallu darllen y trawsgrifiad.




Gyda'n gilydd fe fyddwn ni yn defnyddio'r **trawsgrifiad**, a beth rydyn ni wedi'i ddysgu o'n harolwg a'n cyfweliadau gydag eraill i ysgrifennu adroddiad terfynol.

# Cydsyniad




Cyn i chi gymryd rhan yn y prosiect yma, fe fyddwn ni yn gofyn i chi lofnodi ffurflen **ganiatâd**.


Mae **caniatâd** yn meddwl eich bod chi yn cytuno i wneud rhywbeth.



Mae'n bwysig eich bod chi yn darllen yr wybodaeth yn y ddogfen yma yn ofalus **cyn** i chi arwyddo'r ffurflen **ganiatâd**.




Rydych chi yn gallu newid eich meddwl am roi eich **caniatâd** ar unrhyw adeg hyd at **ddydd Llun 17 Mawrth 2023**.



Mae newid eich meddwl am roi eich **caniatâd** yn meddwl y byddwn ni yn tynnu yr holl bethaurydych chi wedi ei ddweud allan, ac ni fydd yn cael ei roi yn ein hadroddiad terfynol.

# Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel




Fe fydd gwybodaeth bersonol amdanoch yn cael ei chadw ar wahân i'r adborth rydych chi'n ei roi. Er enghraifft, eich enw, eich oedran a lle rydych chi'n byw.




Fe fyddwn ni yn defnyddio ac yn cadw eich gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**.




Rydych chi’n gallu dysgu rhagor am eich hawliau diogelu data a'n polisi diogelu data ar ein gwefan.




Fe fydd yr holl recordiadau ac unrhyw wybodaeth amdanoch chi yn cael eu cadw mewn ffeiliau cyfrifiadurol wedi eu diogelu gyda chyfrinair.



Caiff pob recordiad ei ddileu yn ddiogel pan fydd aelod o staff Anabledd Dysgu Cymru wedi ysgrifennu beth mae pawb wedi ei ddweud.




Fe fydd popeth mae pobl yn  ei ddweud yn cael eu cadw mewn ffeiliau sy'n cael eu diogelu gan gyfrinair. Ni fydd eich enw'n cael ei gadw gyda'r pethau sydd wedi cael eu dweud.



Os ydy rhywun yn gallu bod mewn perygl o niwed, **rhaid** inni ddweud wrth weithwyr proffesiynol sy'n gallu helpu. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn yn siarad gyda chi'n gyntaf.




Pan fydd y prosiect ar ben, fe fyddwn ni yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'n canfyddiadau?



Rydyn ni yn casglu barn pobl drwy:

- **Grwpiau ffocws**
- Arolygon
- Cyfweliad1 i 1 1




Ar ôl i ni orffen casglu barn pawb, fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad.



Fe fyddwn ni yn anfon yr adroddiad ymas allan at bobl a sefydliadau sydd â diddordeb. Fe fydd y cyhoedd yn gallu ei ddarllen ar ein gwefannau.




Fe fyddwn ni yn defnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i awgrymu'r ffordd orau o roi gwybodaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu am gael **brechlynnau**.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu'r wybodaeth yma.

# Rhagor o wybodaeth




I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect yma, neu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am beth sydd yn digwydd gallwch:




**Mynd i'n gwefan**: www.ldw.org.uk/brechlynnau



**Cysylltu gyda Laura yn:**

**Ebost:** Laura.griffiths@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 2068 1160



**I gael gwybodaeth am frechlynnau yng Nghymru, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: icc.gig.cymru/brechlynnau.**